

Cyfarfod Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant

8 Chwefror 2022, 10am-11.30am

Nodiadau

Mynychwyr

- Helene Hayes, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Amy Dutton, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Gwennan Hardy, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Rebecca Woolley, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Donna Coyle, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Dan Roberts, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Catrin Edwards, Ymddiriedolaeth Gofalwyr
- Christopher Williams, Age Cymru
- Helen Smith, St Johns Cymru
- Claire Morgan, Gofalwyr Cymru
- Kate Griffiths, Y Groes Goch
- Kate Young, Fforwm Cymru Gyfan
- Sarah Roche, Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol (RVS)
- Lewis Clark, Tŷ Hafan
- Wynne Roberts, Cyngor Rhyngffydd
- Ross Evans, Aren Cymru
- Roxanne Treacy, Rhwydwaith Cydgynhyrchu
- Thomas Davies, Macmillan
- Tracey Jones, Age Connects Torfaen
- Sean O'Neill, Plant yng Nghymru
- David Dawkins, Cymdeithas Cludiant Cymunedol y DU (CTA UK)
- Vivienne Laing, NSPCC Cymru
- Shelley Davies, Llywodraeth Cymru
- Dave Cook, CGGC
- Judith Stone, CGGC
- Suzanne Mollison, CGGC

Cydberthnasau rhwng iechyd a chyngor

Rhoddodd Rebecca a Gwennan gyflwyniad Cyngor ar Bopeth (CAB) ar effaith materion cynghori ar wasanaethau iechyd a gofal.

Nododd y grŵp pa mor bwysig oedd hi i gael CAB yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus, ac i gael gwasanaethau ar gael lle bynnag y bo'u hangen— e.e. meddygfeydd.

Awgrymodd Kate y dylai'r Tasglu Cydraddoldeb Pobl Anabl, Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y grŵp newydd, llais dinasyddion a'r grŵp newydd ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol arfaethedig weld y cyflwyniad hwn.

Camau gweithredu

- *Kate i anfon e-bost at Rebecca gyda chysylltiadau a rhagor o fanylion ar y grwpiau uchod.*
- *CGGC i ddsbarthu cyflwyniad CAB i'r grŵp.*

Diweddariadau gan grwpiau strategol

Nid yw Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi Sylfaenol yn bodoli mwyach.

Adrian Roper yw sylfaenydd mudiad newydd, Cynghrair Economi Sylfaenol Cymru. Caiff ei gadeirio gan yr Athro Karel Williams.

Siaradodd Rebecca am y grŵp Adeiladu Cymru Iachach. Mae'r sector yn ymwneud â'r grŵp hwn drwy grŵp cynghori, a gadeirir gan Rebecca. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar brydau ysgol am ddim a'r cynnig gofal plant. Mae'n awyddus i glywed awgrymiadau ar wneud y gwaith hwn yn well.

Nododd Kate fod y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i chwalo a'i ddisodli â'r Grŵp Cynllunio ac Adfer, a gadeirir gan Albert Heaney. Bydd y grŵp hwn yn canolbwyntio ar effaith y gofal a ddarperir a'r rhaglen frechu. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymryd ei le yn fuan. Bydd ymgynghoriad, wedyn grŵp technegol i lywio'r Fframwaith Cenedlaethol. Efallai bydd cytundeb Plaid/Llafur ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn effeithio ar y gwaith hwn. Bydd grwpiau technegol yn ymwneud â'r fframwaith a fydd yn ymdrin ag ymgysylltu a llais; llywodraethu a chraffu; darparu gwasanaeth integredig; cynllunio a pherfformiad' ac ail-gydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol.

Mae Andy Glyde yn hapus i barhau fel cynrychiolydd y sector ar fwrdd gweithredu Pwysau Iach: Cymru Iach, os yw'r grŵp yn hapus â'r trefniant hwn.

Camau gweithredu

- *Dylai unrhyw un sy'n dymuno bod yn rhan o un o'r grwpiau technegol gysylltu â Kate neu Judith.*
- *Unrhyw un sydd ar grŵp cenedlaethol yn y meysydd iechyd neu ofal cymdeithasol i anfon e-bost at Dave gyda'i fanylion.*
- *Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd lle Andy ar y bwrdd Pwysau Iach: Cymru Iach anfon e-bost at Dave.*

Atgrynhoad o'r Cyfarfod Gweinidogol diweddar a'r camau gweithredu a ddeilliodd ohono

Mae cam gweithredu'n parhau i Clair lunio papur ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n mapio seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol lleol a rhanbarthol y sector gwirfoddol, a rôl Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs).

Mae'r cam gweithredu i rannu astudiaethau achos wedi'i gwblhau.

Trafododd y grŵp y cam gweithredu ynghylch cynnig y Gweinidog. Roedd hi wedi nodi barn rhai pobl fod y seilwaith o ran byrddau partneriaeth rhanbarthol (RPBs) / Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) / y Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn rhy drwsogl a'i bod hi'n cymryd gormod o amser i gael penderfyniad. Sut gall y sector wneud hyn yn well? Gofynnodd Kate i'r grŵp feddwl am unrhyw enghreifftiau neu brofiadau, yn enwedig yn ystod y pandemig, y gellid eu defnyddio i gyflymu

pethau'n barhaol, neu a oes unrhyw beth a dynnwyd neu a gyflwynwyd a wnaeth wahaniaeth. Gofynnwyd i'r Grŵp hefyd i amlygu pethau a oedd yn gweithio'n dda neu lle mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud.

Cam gweithredu

- *Grŵp i anfon e-bost at Judith a Dave gydag enghreifftiau o bethau sy'n gweithio'n dda a syniadau ar sut i gyflymu prosesau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol erbyn diwedd mis Mawrth 2022.*

Safonau diogelu cenedlaethol

Siaradodd Suzanne am y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Ddiogelu, sy'n amlinellu'r hyn sydd angen i bobl ei wybod am ddiogelu, o lefelau sylfaenol i uwch. Mae modiwlau hyfforddi ar gael ar gyfer hyfforddiant Lefel 1 trwy Borth GIG Cymru.

Siaradodd am lefel Grŵp E, sy'n rhoi trosolwg eang o wasanaethau ac sy'n gallu rhoi arweiniad i fudiadau ar faterion diogelu. Nid oes unrhyw un ar y lefel hon wedi cael y dasg o siarad â'r sector gwirfoddol. Holodd a oedd unrhyw un yn y grŵp ar y lefel hon.

Camau gweithredu

- *CGGC i ddsbarthu disgrifiad a briff o Grŵp E i'r grŵp. Wynne i basio'r papurau hyn ymlaen i grwpiau ffydd.*
- *Dylai unrhyw un sy'n teimlo bod ganddo'r profiad perthnasol gysylltu â Suzanne yn uniongyrchol: smollisson@wcva.cymru*

Diweddariad ar y swydd Rheolwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol y Trydydd Sector

Nododd Judith fod y swydd hon wedi'i hysbysebu, gan annog aelodau i rannu'r swydd wag yn eang.

Eitemau ar gyfer cyfarfod grŵp 22 Mai

Roedd y siaradwyr a awgrymwyd yn cynnwys Sarah Lusty o'r Grŵp Technegol Ailgydbwyso Gofal; Rhian Davies o'r Tasglu Cydraddoldeb Pobl Anabl; Chris Johnes o Gorff Llais y Dinesydd; Matt Jenkins o Lywodraeth Cymru ar gyllid sy'n berthnasol i bwysau'r gaeaf; Adrian Roper ar Gynghrair Economi Sylfaenol Cymru.

Camau gweithredu

- *CGGC i ddod o hyd i siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd i ddod. Amlygwyd Tasglu Cydraddoldeb Pobl Anabl fel blaenoriaeth ar gyfer cyfarfod mis Mai.*

Canllawiau ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Nododd Shelley Davies fod RPBs wedi cael canllawiau ers tro byd, ond byddant yn cael eu cyhoeddi'r wythnos hon. Pan fydd gofyniad am gyllid cyfatebol, saif y cyfrifoldeb am hyn gyda chyrrff statudol. Ni

fydd yn angenrheidiol i fudiadau'r sector gwirfoddol, ond bydd y rheini sy'n gallu cael gafael ar adnoddau yn cael eu cefnogi i ddod â chyllid cyfatebol pan fydd modd. Nod y gronfa yw sicrhau bod chwe model gofal wedi'u hymwreiddio'n llwyr erbyn Blwyddyn 5. Ar ôl hyn, gobeithir y bydd cronfa waddol 50-50, a fydd yn rhoi 50% o gost y gwasanaeth fel cyllid cylchol. Mae asedau cymunedol ac asedau anariannol eraill yn cael eu cyfrif tuag at gyllid cyfatebol. Pwysleisiodd fod y sector yn bartneriaid cyfartal mewn RPBs, a phan dybir nad dyma'r achos, dylai'r sector gwestiynu arweinwyr RPB a'u cynrychiolwyr sector.

Cam gweithredu

- *CGGC i drafod â Shelley ynghylch cyfarfod/gweithdy rhwng y grŵp ac arweinwyr RPB.*